



**Tasgau**  
**Tu Hwnt i'r**  
**Ystafell Ddosbarth**



**'Pawb yn llwyddo gyda'n gilydd'**

# Nodyn i Rieni a Disgyblion

O fewn cloriau'r llyfryn hwn ceir rhestr o weithgareddau, anturiaethau, syniadau a thasgau sy'n ceisio ehangu addysg disgyblion y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth fesul pwnc neu adran. Y gobaith ydyw ychwanegu at y dysgu sy'n digwydd yn yr ysgol.

Caiff pob plentyn ei annog i geisio cwblhau'r tasgau a bydd pob llwyddiant mewn tasg ymestynnol yn cael ei wobrwyo. Bydd hyn yn cefnogi Cynllun Canmol newydd yr ysgol.

Fel ysgol, rydym yn ddiolchgar am eich cydweithrediad pan yn helpu eich plentyn i gwblhau'r tasgau ymestynnol hyn.

Os oes gennych unrhyw ymholiad, gwestiwn neu sylwadau ar y Cynllun yna mae croeso i chi gysylltu â'r Ysgol.

Gyda diolch eto am eich cydweithrediad parod

Ysgol Syr Hugh Owen



# Adran: Cymraeg

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Gwyllo drama yn y theatr ac ysgrifennu adolygiad.

Ymuno â Llyfrgell Caernarfon a defnyddio'r llyfrgell yn gyson.

Gwyllo cyfres deledu ar S4C (e.e Rownd a Rownd, Gwaith Cartref, TAG) ac ysgrifennu adolygiad o un o'r rhaglenni.

Ymweld â'r Galeri neu Pontio, Bangor.

Darllen nofelau T. Llew Jones ac ysgrifennu pam ei fod yn cael ei adnabod fel "Brenin Llenyddiaeth Plant".

Ysgrifennu adroddiad ar un o'r gemau rygbi neu bêl-droed cenedlaethol.

Cwblhau un o'r tasgau Llenyddol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.

Darllen cerddi gan un o feirdd enwog Cymru ac ysgrifennu gwerthfawrogiad o waith y bardd.

Ymweld â chartref neu fro enedigol un o enwogion Cymru (e.e Cae'r Gors - Kate Roberts, Tŷ'r Ysgol, Rhyd Ddu - T.H. Parry-Williams, Yr Ysgwrn, Trawsfynydd - Hedd Wyn)

Ymchwilio i fywyd a gwaith Bardd Plant Cymru a gwneud cyflwyniad digidol am y bardd.

Gwrando ar fwletin newyddion ar Radio Cymru a llunio bwletin newyddion am ddigwyddiad yn eich ardal chi.

Gwrando ar gerddoriaeth gan grŵp Cymraeg a llunio Ffeil-o-Ffeithiau am y grŵp.

Creu Rhestr Chwarae ar Hwb+ am bwnc o'ch dewis chi. (Rhaid cynnwys cwis i gyd-fynd â'r adnoddau.)

Ysgrifennu adroddiad ar gyfer 'Seren Syr Hugh' neu 'Papur Dre'.

Cymryd rhan yng nghystadlaethau Llefaru Eisteddfod yr Urdd.

# Adran: Saesneg

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Gwyllo drama, neu gweld ffilm yn y theatre ac ysgrifennu adolygiad. Tynnwch eich llun yn y foyer.

Ymweld â'r ffort Rufeinig yn Segontium a gwneud rhestr o'r ffeithiau mwyaf difyr amdano. Tynnwch luniau o'ch ymweliad

Ysgrifennu bywgraffiad o awdur sy'n fyw.

Darllen papur newydd "The Times" a dewis tair erthygl ddifyr i'w trafod.

Darganfod pryd mae Diwrnod Barddoniaeth y Byd, ac ysgrifennu cerdd ar ei gyfer.

Darllen neu wyllo drama gan Shakespeare.

Ymuno â llyfrgell gyhoeddus Caernarfon - a'i ddefnyddio i ddarganfod awduron newydd neu ddieithr i chi.

Creu rhestr o ddramau Shakespeare a'u rhannu'n grwpiau fesul thema.

Ysgrifennu bywgraffiad byr o William Shakespeare

Creu blodeugerdd o farddoniaeth yr ydych yn hoff ohono.

Ysgrifennu erthygl i 'Seren Syr Hugh' ynghylch llwyddiant yn yr ysgol.

Darllen triolgi 'Lord of the Rings' Tolkien.

Helpu i drefnu a hyrwyddo gweithgaredd elusennol.

Ysgrifennu bywgraffiad byr o Charles Dickens.

Darganfod pwy ydy'r Poet Laureate ac ysgrifennu un o'i gerddi.

Ysgrifennu llythyr at awdur a gofyn iddynt o ble maent yn cael eu hysbrydoliaeth.

Dysgu 'If' Rudyard Kipling ar eich cof.

Ysgrifennu erthygl am berson enwog rydych chi'n ei edmygu.

Gwyllo ffilm neu addasiad teledu o nofel glasurol ac ysgrifennu adolygiad ohono.

Ymaelodi â chlwb darllen.

Darllen 'David Copperfield' gan Charles Dickens.

Gwyllo rhaglen gyfan newyddion ar BBC neu SKY pob nos am wythnos.

Ysgrifennu stori fer a'i hanfon i gylchgrawn.

Dechreuwch, a chynhaliwch grwp darllen i ddarllenwyr ieuegach.

Creu prosiect ar Michael Morpurgo, i gynnwys bywgraffiad, manylion ei nofelau a'i yrfa ysgrifennu.

# Adran: Mathemateg


## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Pa siapiau y gellir eu creu drwy blygu darn A4 o bapur unwaith yn unig?

Allwch chi adeiladu tetrahedron ble mae pob wyneb efo'r un perimedr?

Oes yna berthynas rhwng faint o bobl sydd yn mynychu gêm bêl droed yn y Premier League a faint o gemau mae'r tim wedi ennill. Defnyddiwch ystadegau diweddaraf o <http://www.espnfc.com/english-premier-league/23/statistics/performance> i'ch helpu.



**Consecutive Sums**

Some numbers are sums of consecutive numbers.  
Can you make all the numbers this way?  
Which numbers can be written in more than one way?

$10 = 1 + 2 + 3 + 4$   
 $11 = 5 + 6$   
 $9 = 4 + 5$  and  $2 + 3 + 4$   
 $12 = 3 + 4 + 5$   
 $13 = 6 + 7$   
 $14 = 2 + 3 + 4 + 5$

nrich.maths.org

Ym 2016 cyfrododd pobl Prydain 8,262,662 o adar yn eu gerddi ar gyfer y 'Big Garden Birdwatch 2016', Ewch i <http://www.rspb.org.uk/get-involved/activities/birdwatch/results.aspx> am ragor o fanylion. Cyfrwch faint o adar gwahanol y gallwch eu gweld mewn awr a chymharwch eich canlyniadau chi gyda rhai Cymru.

Trefnwch dwrnament tennis fwrdd yn dilyn y rheolau canlynol:

1. Mae yna 7 chwaraewr yn y twrnament
  2. Mae'n rhaid i bob chwaraewr chwarae yn erbyn ei gilydd unwaith
  3. Mae yna 4 bwrdd tennis ar gael.
  4. Mae gemau'n cymryd hyd at hanner awr.
  5. Mae'r twrnament yn cychwyn am 1.
- Lluniwch boster fel bod y chwaraewyr yn gwybod beth i'w wneud.

Trefnwch driip ysgol i 50 o ddisgyblion eich blwyddyn i ba bynnag leoliad yr hoffech fynd iddo. Cyfrifwch y pellter a'r costau a lluniwch lyfryn yn rhoi'r wybodaeth ac yn gwerthu'r syniad o bam rydych eisiau mynd yno.

# Adran: Mathemateg

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

### Chances Are



Are you willing to take your chances with any of these games?  
Which one has the best odds of winning?

To win, spin a coin and get 12 heads in a row!

Roll a 6 on our ten-sided die four times in a row to win!

Pick my favourite 4 of these 10 pictures and put them in order to win.

Throw five dice and get five sixes, and you win!

These are my seven favourite plants. Put them in the right order to win.

[nrich.maths.org](http://nrich.maths.org)

Ymchwiliwch i ba mor bell y gallwch deithio o'r ysgol mewn awr—gallwch ddefnyddio unrhyw fath o drafnidiaeth—trên, bws, awyren ... ond cofiwch angen cyrraedd yn gyntaf! Disgrifiwch eich siwrnai o giât yr ysgol—pa mor bell wnewch chi gyrraedd?



**Make 100**

1 2 3 4 5 6 7 8 9 = 100

Fill in the gaps with suitable operations (+, -, ×, ÷) to make 100


Thousands more problems can be found on the [Nrich](http://nrich.maths.org) maths website: <http://nrich.maths.org>

Pa mor gyflym ydych chi'n ymateb i rywbeth (e.e. dal pêl, dechrau ras ....)? Cynlluniwch arbrawf i fesur amseroedd ymateb. Triwch o gyda'ch ffrindiau. Dangoswch eich canlyniadau mewn ffordd clir a diddorol.

Cynlluniwch fwrdd sy'n eistedd 5 o bobl i fwyta fel teulu. Mae angen iddo ymestyn fel bod 8 i 10 o bobl yn gallu eistedd o'i gwmpas ar chlysuron arbennig. Mae angen gwneud cynlluniau manwl o'r bwrdd o bob cyfeiriad gan ddangos yr holl fesuriadau ar gyfer ei wneud mewn ffatri. Ysgrifennwch yr adroddiad yn egluro beth yw prif nodweddion y bwrdd (lliw, deunydd a.y.y.b) a faint fuasai'n gostio i'w wneud.

### Cuboid Challenge

You can make an open box from a 20cm by 20cm piece of card by cutting out four squares and folding the flaps.



What's the biggest volume of box you can make in this way?



[nrich.maths.org](http://nrich.maths.org)

**\*\* HER \*\*** Allwch chi ddatrys unrhyw un o'r problemau ar ProjectEuler.net? Mae Project Euler yn gyfres o broblemau mathemategol/rhaglennu cyfrifiadurol sy'n gofyn am fwy na dim ond sgiliau mathemategol i'w datrys. Er bod sgiliau mathemategol yn mynd i'ch galuogi i anelu at ffyrdd effeithiol a gosgeiddig, bydd angen sgiliau cyfrifiadurol a rhaglennu i ddatrys y rhan fwyaf o'r problemau.

# Adran: Gwyddoniaeth Blwyddyn 7

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Ymchwiliwch i sut mae tân gwyllt yn cael eu gwneud a sut mae cael lliwiau ac effeithiau gwahanol.

Darganfyddwch beth yw "effaith Mpemba" a cheisiwch ailadrodd ei arbrawf.

Gwnewch yr arbrawf "cwmwl mewn jar" ([www.kidspot.com.au](http://www.kidspot.com.au)). Cyflwynwch y gwaith i'ch dosbarth

Darganfyddwch ffaith ddiddorol ar wefan "Ask an Astronomer" ([curious.astro.cornell.edu](http://curious.astro.cornell.edu)). Gwnewch boster i ddangos hwn

Defnyddiwch feddalwedd "PowerPoint" i greu animeiddiad i ddangos sut mae cromatograffeg yn gweithio.

Pa mor iach yw iogwrt di-fraster?

Esboniwch pam fod brechdan frown ham a salad gyda diod sudd oren yn bryd cytbwys. Dangoswch eich gwaith ar ffurf map meddwl

Ewch i chwilio am anifeiliad o dan gerrig ar y Foryd. Tynnwch luniau beth rydych yn ei ddarganfod a gwnewch siart bar i gofnodi eu niferoedd

Darllenwch bapur newydd a cyfrwch sawl erthygl sy'n ymwneud â Gwyddoniaeth. Gwnewch siart bar i ddangos nifer yr erthyglau sydd am wahanol bynciau mewn wythnos

Cymerwch ran mewn unrhyw weithgaredd lleol ar gyfer Wythnos Wyddoniaeth 2017 (Mawrth 10-19). (Er enghraifft, edrychwch ar raglen Prifysgol Bangor ar gyfer yr wythnos)

Ewch i chwilio am ffosiliau ar Draeth Coch yn Ynys Môn. Ceisiwch wneud diagramau cŵyr o un ohonynt

Ailadroddwch unrhyw arbrawf sydd ar wefan "The Naked Scientist" a chyflwynwch hyn i weddill y dosbarth

## Adran: Gwyddoniaeth Blwyddyn 8

### Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Sut mae gwahanol fathau o fatsys yn gweithio?  
Cyflwynwch eich gwybodaeth ar ffurf poster

Beth yw'r triongl tân? Darganfyddwch sut mae gwahanol ddiffoddwyr tân yn gweithio a paratowch gyflwyniad ar y gwaith

Dysgwch y gân sy'n rhestru'r tonnau yn y sbectrwm electromagnetig

Gwnewch linell amser i ddangos darganfyddiad y meicrosgop a theori y gell

Cwblhewch un o arolygon OPAL ar yr amgylchedd ([www.opalexplorenature.org](http://www.opalexplorenature.org))

Darganfyddwch sawl mast ffôn symudol sydd yn eich ardal chi. Gwnewch fap i ddangos ble maen nhw a pha gwmnïau sydd yn berchen ar bob un

Gwnewch linell amser i ddangos sut mae'n syniadau am yr atom wedi datblygu dros amser maith

Pam fod celloedd mewn gwaed? Darganfyddwch pam fod gwaed mewn gwythiennau yn gallu ymddangos yn las

Gwnewch arolwg i ddarganfod a yw pobl yn meddwl fod golchi dillad ar dymheredd isel yn beth da ai peidio

Cymerwch ran mewn unrhyw weithgaredd lleol ar gyfer Wythnos Wyddoniaeth 2017 (Mawrth 10-19). (Er enghraifft, edrychwch ar raglen Prifysgol Bangor ar gyfer yr wythnos)

Darganfyddwch pa elfennau sydd yn y corff.  
Gwnewch siart cylch i ddangos hyn

Ewch ar ymweliad i Fynydd Parys ger Amlwch, Ynys Môn

Ailadroddwch unrhyw arbrawf sydd ar wefan "The Naked Scientist" a cyflwynwch hyn i weddill y dosbarth

Rhowch feddalwedd "Audacity" ar eich cyfrifiadur a defnyddiwch hwn i ymchwilio i sut mae tonnau sain gwahanol synau yn amrywio

Sut mae'r heddlu yn defnyddio Gwyddoniaeth i hwyluso eu gwaith?



# Adran: Gwyddoniaeth Blwyddyn 9

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Ewch ar ymweliad i'r Mynydd Gwefru yn Llanberis a chasglwch rywfaint o ddeunyddiau darllen.

Pam fod powdwr golchi biolegol yn golchi dillad yn well ar dymheredd is?

Darganfyddwch sut mae Gwyddoniaeth wedi gwella perfformiad chwaraewyr yn eich hoff chwaraeon. Gwnewch boster i gyflwyno'ch gwaith.

Cymerwch ran mewn unrhyw weithgaredd lleol ar gyfer Wythnos Wyddoniaeth 2017 (Mawrth 10-19). (Er enghraifft, edrychwch ar raglen Prifysgol Bangor ar gyfer yr wythnos).

Ailadroddwch unrhyw arbrawf sydd ar wefan "The Naked Scientist" a chyflwynwch hyn i weddill y dosbarth.

Ysgrifennwch a chyflwynwch araith berswadiol am unrhyw bwnc gwyddonol rydych yn teimlo'n gryf amdano.

Gwnewch ymchwil i effaith tymor-hir byw yn y gofod ar gorff gofodwr. Paratowch gyflwyniad PowerPoint i ddangos eich gwaith.

Gwnewch fodel o hofranfad (*hovercraft*). Gwnewch asesiad o'i pherfformiad ac eglurwch pa rymoedd sy'n gweithredu arni.

Eglurwch pam fod ŵy yn caledu pan mae'n cael ei ferwi.

Pa wledydd sy'n cynhyrchu trydan mewn pwerdai niwclear? Cyflwynwch eich darganfyddiadau ar ffurf poster.

Mae cloddio am fetelau prin yn gallu achosi llygredd difrifol. Paratowch gyflwyniad PowerPoint sy'n dangos rhai enghreifftiau a sy'n egluro sut mae'r llygredd yn digwydd.

Beth yw nanowyddoniaeth? Beth yw ei bwysigrwydd? Ysgrifennwch adroddiad am hyn

# Adran: Addysg Gorfforol

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Mynd i sesiwn 5 x 60

Cynrychioli unrhyw dîm chwaraeon yn yr ysgol

Mynd i'r ystafell ffitrwydd ar ôl ysgol

Mynd i nofio

Cynrychioli'r tîm ym Mabolgampau'r Ysgol

Cyfrannu i'r Cyngor Chwaraeon

Hyfforddi a/neu gefnogi clybiau amser cinio

Hyfforddi a/neu gefnogi clybiau ar ôl ysgol

Cofrestru ar safle twitter Addysg Gorfforol YSHO  
@agysho

# Adran: Addysg Grefyddol

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Tynnu llun o lygoden yng Nghadeirlan Bangor.

Darganfod dirwnod pa Sant sydd yn cael ei ddathlu ar eich penblwydd?

Gallu rhestru Pum Piler Islam ar gôf.

Gwyllo'r ffilm 'Bend it Like Beckham'.

Darganfod beth ydi llyfr cyntaf a llyfr olaf yr Hen Destament.

Dysgu ac adrodd y Shema Iddewig.

Darganfod ym mhlwyf pa eglwys mae eich cartref.

Ysgrifennu bywgraffiad byr o fywyd Oscar Romero.

Rhestru'r pump llyfr sydd yn ffurfio'r Torah?

Gwyllo'r ffilm 'Exodus: Gods and Kings'.

Gwneud rhestr o 5 addoldy sydd yn nhref Caernarfon a nodi i ba grwpiau crefyddol y maent yn perthyn.

Ysgrifennu canllaw ar unrhyw fan pererindod mewn unrhyw grefydd.

Darganfod sut y mae dyddiad dathlu'r Pasg yn cael ei gyfrifo.

Ymweld ag unrhyw addoldy o unrhyw grefydd.

Dysgu beth yw symboliaeth 5K y Sikhiaid.

## Adran: Celf

### Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Ymweld ag oriel gelf—casglu taflenni

Creu llun o'ch tŷ mewn lliwiau cyferbyniol

Edrych ar logos gwahanol e.e. Mars/  
Maltesers/Coca Cola yna cynllunio enwau  
eich ffrindiau/teulu yn yr un ffont.

Ysgrifennu eich enw mewn 10 gwahanol font  
([www.dafont.com](http://www.dafont.com)).

Cynllunio logo i'r ysgol gan ddefnyddio/creu  
patrwm Celtaidd.

Creu strip cartŵn gan ddefnyddio dihareb fel  
ysbrydoliaeth.

Cynllunio cerdyn ar gyfer unrhyw achlysur gan  
ddefnyddio dihareb.

Cynllunio cerdyn pen-blwydd yn arddull yr art-  
ist Banksy.

Bywyd llonydd o'ch bwrdd gegin (mewn pensil  
gan gofio cysgod).

Hunan bortread mewn arddull o'ch dewis chi.

Cynllunio clawr CD yn arddull Kandinsky/neu  
artist o'ch dewis chi.

Cynllunio GRAFFITI yn defnyddio eich enw.

Portread o rywun enwog.

Ymweld ag oriel Gelf a gwneud ymchwil ar un  
o'r artistiaid yn yr oriel.

Edrych allan drwy ffenest eich llofft a chreu  
peintiad o'r hyn a welwch.

# Adran: Cerdd

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn rheolaidd.

Cymryd rôl Mentor Cerddorol drwy gefnogi dysgu dosbarth cyfan.

Cymryd rôl Mentor Cerddorol drwy gefnogi/dysgu datblygiad ar offeryn cerddorol penodol i rywun arall.

Cymryd rhan mewn cyngerdd cerddorol: perfformiad neu griw cynhyrchu

Perfformio yn y gwasanaeth boreol.

Cefnogi blwyddyn 5 a 6 yr ysgolion cynradd yn yr Ymweliad Cynradd.

Mynychu cyngerdd neu ddatganiad penodol. Rhaid profi eich bod wedi bod yno e.e. tynnu llun, copi o raglen.

Uwchlwytho eich cyfansoddiad ar Youtube Cerdd Syr Hugh

Dangos eich bod yn gallu defnyddio Audacity yn llwyddiannus.

Recordio eich hun yn chwarae darn o gerddoriaeth a'i roi ar Youtube Cerdd Syr Hugh.

Gwneud recordiad acwstig sy'n dangos dealltwriaeth o dechneg defnyddio meicroffôn

Dysgu chwarae Penblwydd Hapus ar eich offeryn - o'r glust h.y. heb gopi

Dysgu chwarae Pen-blwydd Hapus ar offeryn newydd/ anghyfarwydd

Dysgu unrhyw alaw ar y gitâr

Dysgu unrhyw alaw ar y gitâr fâs.

Gwrando ar gerddoriaeth o 5 gwlad arall ar Youtube, gan nodi enw'r gân a'r artist.

# Adran: Daearyddiaeth

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Ymweld â chanolfan weithgareddau ble mae disgyblion yn gallu cael profiadau o weithgareddau daearyddol megis cyfeiriannu neu nofio afon. Hefyd cwblhau ymarferion a thechnegau gwaith fîm.

Creu gorsaf dywydd unai adref neu yn yr ysgol ble gellir cofnodi y data sy'n cael ei gasglu a thrafod achos a chanlyniad digwyddiadau tywydd.

Trafod mewn grŵp materion daearyddol megis cynhesu byd eang, diffyg dŵr, trafndiaeth, llygredd a.y.y.b.

Chwarae gemau megis Geography Trivial Pursuit i ehangu gwybodaeth am wahanol leoedd.

Ymrwymo i dderbyn copi o gylchgrawn daearyddol megis National Geographic.

Trefnu i siaradwr gwâdd ddod i gyflwyno gwybodaeth am weithgareddau daearyddol lleol megis o'r adran gynllunio leol, neu asiantaeth yr amgylchedd.

Cynllunio gweithgaredd gyfeiriannu mae'r disgybl wedi ei drefnu yn annibynnol.

Creu modelau 3D o nodweddion daearyddol megis folcano, arfordir ac ati.

Gwyllo'r newyddion a gwneud nodiadau ar faterion daearyddol eu natur.

Chwilio mewn papurau newydd a thorri erthyglau daearyddol pwysig a chadw arddangosfa o faterion daearyddol y dydd.

Cynnwys eich hunan mewn materion cyhoeddus sy'n cael effaith ar y gymuned leol e.e. adeiladu ffordd newydd, stad dai newydd, mast ffonau symudol neu dyrbeins gwynt.

Datblygu llythrennedd weledol drwy edrych ar fapiau, lluniau o'r awyr, diagramau, graffiau a lluniau lloeren.

Defnyddio GIS a TGCH a Google Earth.

Gwyllo ffilm gyda manylion daearyddol ac adolygu cywirdeb y ffilm.

Ymchwiliwch i un wlad a darparu gwybodaeth ffisegol, demograffig, amgylcheddol a hinsawdd amdani.

# Adran: Ffrangeg

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Stamp

Gwnud cyflwyniad PwyntPwer ar fwyd/diod Ffrengig a'i gyflwyno i'r athro/dosbarth.

Ymchwilio Hwiangerdd/Cân/Carol Ffrangeg a dysgu pennill neu ddwy.

Gwneud holiadur ar gyfer dy flwyddyn yn eu holi am eu hoff Chwaraeon/Gweithgareddau Hamdden. Cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graph/siart.

Gwneud holiadur ar gyfer dy flwyddyn yn eu holi am eu hoff Fwyd a Diod. Cyflwyno'r wybodaeth ar ffurf graph/siart.

Lawrlwytho'r app Duolingo a gwneud rhai o'r ymarferion Ffrangeg bob dydd am wythnos.

Lawrlwytho'r app Duolingo a gwneud rhai o'r ymarferion Ffrangeg bob dydd am fis.

Ymchwilio cymeriad/dylunydd/arlunydd/athletwr(aig)/berson enwog Ffrengig a gwneud proffil ohonynt yn Ffrangeg.

Llunio bwydlen '**à la carte**' ar gyfer bwyty Ffrengig.

Chwilio am fwydlen Ffrangeg o fwyty ar-lein a'i gyfieithu. (Am wobwr ychwanegol, defnyddio'r gyfradd gyfnewid i roi'r prisiau cyfatebol i mewn hefyd).

Darganfod cân Pop Ffrengig. Cyfieithu pennill neu ddwy a'u dysgu.

Ymchwilio dyddiad, hanes a dathliadau Diwrnod Bastille yn Ffrainc. Cyflwyno'r wybodaeth i'r athro/dosbarth.

Ysgrifennu llythyr at ffrind newydd yn disgrifio dy hun yn fanwl.

Ymchwilio 3 adeilad/atyniad Ffrengig a gwneud pamffled/llyfryn gwybodaeth arnynt.

Ymchwilio sut mae cartrefi Ffrengig yn dathlu'r Wyl (Nadolig a'r Flwyddyn Newydd).

Chwilio am ysgol Ffrengig ar y Wê a gwneud pamffled/llyfryn gwybodaeth o'r ysgol.

Ysgrifennu ddyddiadur bwyd yn Ffrangeg am wythnos / fis.

Cynhyrchu pamffled/llyfryn ar leoliad Cymraeg neu Ffrangeg yn annog pobl i ymweld â'r lle.

Gwyllo ffilm Ffrengig ac ysgrifennu adolygiad o'r ffilm (cofio cymryd sylw o'r oed).

Ysgrifennu cwwis Gwir neu Gau yn Ffrangeg ar gyfer y dosbrth/flwyddyn.

Cynhyrchu Pwynt Pwer ar unrhyw 3 rheol gramadegol. Cyflwyno'r wybodaeth i'r athro/dosbarth.

Cynhyrchu Pwynt Pwer yn egluro sut i siarad yn y Gorffennol yn Ffrangeg.

Cynhyrchu Pwynt Pwer yn egluro sut i siarad yn y Dyfodol yn Ffrangeg.

Chwilio ar-lein am erthygl o bapur newydd Ffrangeg. Ysgrifennu crynodeb Cymraeg/Saesneg o'r erthygl

Ymchwilio rhai o'r prif faterion amgylcheddol yn Ffrainc ar y funud.

# Adran: Hanes

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Cymryd rhan mewn noson agored gyda'r Adran hanes

Gwneud adolygiad (oleiaf 500 o eiriau) o gyfres hanesyddol ar y teledu e.e. Poldark, Horrible Histories, The Tudors, Band of Brothers

Gwneud poster mawr yn cynnwys 10 o bethau afiach yr ydych wedi ei ddarllen o'r gyfres 'horrible histories'.

Ymweld â 3 castell yng Ngogledd cymru (heb gynnwys Caernarfon)

Darllen dyddiadur Anne Frank (yn Gymraeg neu Saesneg) ac ysgrifennu adolygiad 500 o eiriau yn rhoi eich barn am y llyfr

Darllen bwygraffiad hanesyddol unrhyw berson pwysig mewn hanes

Darllen nofel ac yna cymharu'r nofel gyda'r ffilm e.e. Schindler's Ark, The Pianist, To Kill a Mockingbird, War Horse, Goodbye Mr Tom, Treasure Island

Darganfod o leiaf 4 cofgolofn (monument) yn yr ardal leol

Cyfweld perthynas neu ffrind teuluol am unrhyw ddigwyddiad hanesyddol yr oeddynt yn dyst iddo neu yn ei gofio

Creu coeden deuluol sy'n mynd yn ôl mor bell â phosib

Gwneud ffeil o ffeithiau (Fact file) am unrhyw ddigwyddiad hanesyddol sydd ddim yn cael ei astudio yn yr ysgol

Ysgrifennu coffadwriaeth (obituary) am unrhyw ffigwr hanesyddol

Gwneud Pwynt Pwer o hanes tref Caernarfon ers 1700.

Gwneud rhestr o brif ddigwyddiadau yn hanes Cymru a pham eu bod yn bwysig

Tynnu selfie tu allan i adeiladau hanesyddol pwysig ym Mhrydain (heblaw unrhyw gastell)



# Adran: Technoleg - Bwyd & Maeth

## Cyfle i ddysgu

Gwelwyd  
tystiolaeth/  
Arwyddwyd

Rhoi cynnig ar flasau bwyd nad ydych erioed wedi ei flasuo o'r blaen

Ymweld â 'Marchnad cynnyrch bwyd lleol'

Edrych ar gynnwys maeth bwydydd yr ydych yn fwytia

Ymweld â siop bysgod i weld yr amrywiaeth sydd ar gael.

Edrych ar y bwydydd tramor sydd ar gael mewn archfarchnadoedd.

Casglu cylchgronau (am ddim) bwyd sydd mewn archfarchnadoedd.

Torri lluniau bwydydd allan i gael syniadau ar sut i gyflwyno bwydydd.

Ymweld â siop cigydd i weld yr holl ddarnau (cuts) gwahanol o gigoedd sydd ar gael.

Gwyllo aelodau eraill o'r teulu yn coginio.

Gwyllo rhaglenni coginio ar y teledu megis Masterchef, Great British Bake Off

Ymweld â chaffi/bwyty lleol i gael pryd o fwyd

Defnyddio'r wê i ymchwilio i gynnyrch bwyd sydd ar gael yn lleol

Casglu rysetiau yr ydych yn goginio i greu llyfr rysetiau personol

Ymweld â siop lysiau a ffrwythau ffres i weld yr amrywiaeth sydd ar gael.

Coginio ar gyfer eich teulu